Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Cei Newydd
# Y Caban
# Cae Arthur
# Cei Newydd
# Ceredigion

**Dyddiad yr arolygiad: 27-28 Mawrth 2012**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Cei Newydd ar ddechrau'r wythdegau a symudwyd y Cylch i gaban pwrpasol ar dir y cae pêl droed yn 2007. Ychwanegwyd a datblygwyd ardal allanol yn ystod y blynyddoedd diweddaraf. Mae mwyafrif y plant sy'n mynychu'r lleoliad yn dod o'r pentref a'r ardal o amgylch. Bernir nad yw'r ardal yn freintiedig nac ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy i bedair oed am bum sesiwn yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Mae ar agor rhwng 9:00 a 12:00 o'r gloch y bore. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd saith plentyn tair oed ar y gofrestr. Daw bron pob un o'r plant o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith yr aelwyd. Ar hyn o bryd, nid oes neb o gefndir ethnig lleiafrifol yn mynychu na phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Cyflogir pedair ymarferwraig. Mae tair ohonynt yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Tachwedd 2011 a gan Estyn ym mis Tachwedd 2005.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu;
- mae'r plant yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu;
- cynigir ystod eang o weithgareddau diddorol;
- caiff y plant ofal o ansawdd da; a
- darperir amgylchedd gwresog a chroesawgar.

**Rhagolygon gwella**

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella da oherwydd:

- arweinyddiaeth gadarn y prif ymarferydd;
- staff ymroddedig;
- gwaith tîm da;
- yr ymrwymiad i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach; a
- chefnogaeth effeithiol y pwyllgor rheoli a'r rhieni.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 gryfhau medrau cyfathrebu Cymraeg y plant;

A2 strwythuro'r gweithgareddau ymhellach er mwyn ymestyn medrau'r plant hŷn;

A3 mireinio cynllunio'r cwricwlwm i sicrhau dilyniant a chydbwysedd ar draws y meysydd dysgu; a

A4 datblygu gwybodaeth yr ymarferwyr o ddulliau hunan arfarnu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu mewn perthynas â'u man cychwyn.

Gwna'r mwyafrif o'r plant ddefnydd cynyddol o'u medrau meddwl, cyfathrebu, rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn eu gwaith. Mae medrau gwrando a chanolbwyntio y rhan fwyaf o'r plant yn dda. Maent i gyd yn deall cyfarchion a chyfarwyddiadau ac ymatebant yn gywir. Mae y rhan fwyaf yn deall y storïau a ddarllenir iddynt a chyflwyniadau'r ymarferwyr ond ychydig iawn sy'n ymateb yn y Gymraeg ac ymatebion byr a geir. Gwyddant nifer dda o ganeuon a rhigymau ac maent yn eu canu'n gywir. Mae ychydig o'r plant yn adnabod synau rhai o brif lythrennau'r wyddor a gyda chymorth yn medru cyfateb llun a gair yn gymharol gywir. Mae y rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau edrych ar lyfrau ac mae'r mwyafrif yn adnabod eu henwau ar ffurf print. Defnyddiant offer marcio yn bwrpasol mewn ystod o gyfryngau, gydag ychydig ohonynt yn ysgrifennu eu henwau yn annibynnol.

Gwna'r mwyafrif o'r plant ddefnydd addas o'u medrau rhif mewn gweithgareddau bob dydd. Mae bron pob un yn cyfrif i ddeg yn gywir ac mae'r mwyafrif yn adnabod gwerth rhifau i bump mewn sefyllfaoedd ymarferol. Maent yn adnabod siapiau dau ddimensiwn sylfaenol ac yn deall bod angen arian i brynu nwyddau yn y siop. Gallant greu a dilyn patrwm yn gywir. Mae'r mwyafrif yn deall ystyr 'mawr' a 'bach'

ac yn medru gosod gwrthrychau mewn trefn maint. Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sylfaenol mwyafrif y plant yn datblygu'n briodol. Defnyddiant gyfarwyddiadau yn addas i symud gwrthrychau ar y sgrin, i gynllunio taith i'r teganau rhaglenadwy ac i ddefnyddio'r camera i dynnu lluniau.

Mae medrau personol a chymdeithasol y plant yn datblygu'n dda. Mae y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau meddwl a datrys problemau mewn gweithgareddau corfforol a chreadigol. Dangosant fedrau llawdriniol da wrth greu gludwaith ac wrth ddefnyddio offer torri a gludo.

**Lles: Da**

Mae pob un o'r plant wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Maent yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yng nghwmni'r oedolion, ac yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth. Mae'r mwyafrif yn dangos agweddau da at ddysgu ac yn awyddus i ymgymryd â phrofiadau newydd. Maent yn dyfalbarhau gyda'r tasgau a osodir, yn cyd-chwarae gyda'i gilydd yn hwylus ac yn ymddwyn yn dda.

Mae gan y rhan fwyaf o'r plant ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta'n iach. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn yr ardal allanol.

Mae medrau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol y plant yn datblygu'n effeithiol drwy'r gweithgareddau dyddiol a thrwy brofiadau megis mynd ar ymweliadau a chroesawi ymwelwyr i'r lleoliad. Mae mwyafrif y plant yn defnyddio'r cyfleoedd a ddarperir yn ystod y sesiwn yn hyderus i wneud dewisiadau drostynt eu hunain.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb y plant yn gyson. Seilir y gweithgareddau ar themâu sy'n addas i ystod oed y plant. Defnyddir fframweithiau cynllunio priodol sy'n seiliedig ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Er hyn, nid yw'r cynllunio bob amser yn sicrhau dilyniant a chydbwysedd digonol yn y dysgu ar draws y meysydd dysgu.

Darperir cyfleoedd priodol i'r plant ddefnyddio eu medrau cyfathrebu, rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn gweithgareddau gwahanol. Cynigir cyfleoedd effeithiol i'r plant ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol sy'n caniatáu iddynt ffurfio perthynas dda â phlant eraill a chydag oedolion ac i ddatblygu yn ddysgwyr annibynnol.

Darperir anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio medrau Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda'r plant ac yn cyflwyno geirfa sy'n ymwneud â'r thema gyfredol drwy weithgareddau ymarferol, rhigymau a chaneuon, a gemau pwrpasol. Datblygir ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Darperir cyfleoedd priodol iddynt ddysgu am y byd

ehangach, gan gynnwys pobl a diwylliannau eraill.  Maent yn dathlu'r flwyddyn newydd Tseiniaidd drwy ymwneud ag ystod o weithgareddau celf a cherddorol.

Mae'r cyfleoedd i dyfu a gofalu am blanhigion, arsylwi ar ddatblygiad penbyliaid a gweithdrefnau ailgylchu yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw.

### Addysgu:  Da

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth ddatblygol o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.  Gwnânt ddefnydd addas o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol i gynorthwyo'r dysgu.  Maent yn gweithio'n dda fel tîm ac yn cynnig cymorth cyson i'r plant.  Ymunant yn egnïol yn y gweithgareddau ac maent yn rheoli ymddygiad yn effeithiol.  Ceir rhediad esmwyth i drefn y sesiynau gyda defnydd priodol o'r ymarferwyr i arwain grwpiau penodol.  Er hyn, nid yw'r gweithgareddau wedi'u strwythuro'n ddigonol bob amser i ymestyn y plant hŷn.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda a defnyddir gweithdrefnau addas i asesu a chofnodi eu cynnydd.  Maent yn arsylwi ar ymateb y plant yn gyson wrth iddynt ymwneud â'u gweithgareddau. Cwblheir cofnod o gyflawniad ar draws y chwe maes dysgu yn ofalus.  Mae'r drefn o gasglu enghreifftiau o waith pob plentyn mewn ffeiliau personol yn cynnig darlun defnyddiol o'u datblygiad.  Caiff rhieni eu hysbysu am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol ar ddechrau a diwedd sesiynau a thrwy adroddiad ysgrifenedig addas.  Yn ddiweddar, cychwynnwyd ar drefn adeiladol i gynnig apwyntiad i'r rhieni i gael sgwrs bellach gyda'r ymarferwyr am ddatblygiad eu plant.

### Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da

Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant.  Rhydd sylw da i hyrwyddo eu dealltwriaeth o bwysigrwydd golchi dwylo, trin offer yn ddiogel ac ymddwyn yn gyfrifol.  Darperir byrbrydau iach.  Mae trefniadau sefydlu'n sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad.  Mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o'r holl blant.

Sefydlwyd trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn ôl yr angen, ac mae llinellau cyfathrebu priodol gydag asiantaethau allweddol.  Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.  Yr arweinydd yw'r prif berson â chyfrifoldeb am y maes hwn ac mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant priodol.  Ymgymerir ag asesiadau risg yn rheolaidd.

Mae profiadau dysgu effeithiol yn hyrwyddo datblygiad personol y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, yn dda.  Hyrwyddir gwerthoedd, megis tegwch, caredigrwydd, a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir, yn gyson drwy'r gweithgareddau dyddiol.  Hyrwyddir eu hymwybyddiaeth o'r angen i helpu rhai llai ffodus yn briodol trwy gasglu arian at achosion da.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a gyflwynir. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn ymateb yn briodol. Llwyddir i greu amgylchedd cynnes a chroesawgar i'r holl blant.

Mae gan y lleoliad nifer briodol o ymarferwyr profiadol. Mae'r adeilad o ansawdd da ac yn cynnig ystod o gyfleusterau addas. Gwneir defnydd llawn ohonynt. Mae'r ardal allanol yn darparu cyfleoedd addas i'r plant ymchwilio a chwarae. Mae'r arddangosfeydd o waith y plant yn cyfrannu at greu amgylchedd deniadol. Ceir adnoddau digonol sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Gwneir defnydd addas o ymweliadau â mannau o ddiddordeb, megis y traeth a gorsaf y bad achub, i ymestyn profiadau'r plant.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
| --- | --- |

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff y lleoliad ei arwain yn effeithiol gan arweinydd cydwybodol. Mae'r ymarferwyr i gyd yn deall eu rolau ac maent yn gweithio'n dda fel tîm. Llwyddir i greu amgylchfyd trefnus a phwrpasol i'r plant. Mae polisïau addas yn weithredol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cynnig cymorth a chefnogaeth i'r ymarferwyr yn gyson. Mae gan yr aelodau ddiddordeb yn yr hyn sy'n digwydd ac maent yn gweithio'n galed i godi arian. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae perthynas waith agos rhwng y prif ymarferydd a'r person cofrestredig. Ceir gweithdrefnau priodol ar gyfer arfarnu perfformiad yr ymarferwyr ac i adnabod agweddau ar gyfer eu datblygiad proffesiynol pellach.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, mentrau bwyta'n iach a hybu medrau iaith Cymraeg y plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda o brif gryfderau'r lleoliad, ac o rai agweddau sydd angen gwelliant. Maent yn cyd-drafod yn rheolaidd ac yn agored i syniadau newydd er mwyn gwella'r ddarpariaeth ymhellach. Mae gwybodaeth yr ymarferwyr o ddulliau hunan arfarnu'r ddarpariaeth yn parhau i ddatblygu.

Caiff y lleoliad ei fonitro gan athrawes gyswllt yr awdurdod lleol. Cytunir ar agweddau addas i gael sylw a rhoddir strategaethau priodol ar waith. Trafodir agweddau ar y ddarpariaeth yn rheolaidd gyda swyddog Mudiad Ysgolion Meithrin. Fel rhan o'r swydd, mae'r person cofrestredig yn cynnal adolygiad blynyddol o'r ddarpariaeth. Darperir holiaduron yn flynyddol i'r rhieni i geisio eu barn ac estynnir gwahoddiad iddynt gwblhau holiadur pellach cyn i'w plant drosglwyddo i'w hysgol gynradd. Rhydd sylw priodol i'r sylwadau a wneir.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn cynnig darlun cytbwys o'r ddarpariaeth. Mae'r cynllun gwella sydd wedi deillio o hyn yn adnabod meysydd addas ar gyfer datblygiad pellach y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas mewn agweddau ar ddatblygiad a gofal plant a gwnânt ddefnydd addas o'r hyfforddiant a geir. Mae cyswllt yr arweinydd gydag athrawon yr ysgol gynradd o gymorth wrth drafod cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Ceir rhai cyfleoedd i'r ymarferwyr gyd-drafod a rhannu syniadau gydag ymarferwyr a lleoliadau eraill yn ystod dyddiau hyfforddiant.

### Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae ystod dda o bartneriaethau sy'n cyfrannu at ddatblygiad y plant ac yn cynorthwyo datblygiad y lleoliad yn gyffredinol. Mae perthynas agos rhwng y lleoliad a'r rhieni/ gofalwyr a chadarnhawyd hyn yn y sgyrsiau yn ystod yr arolygiad. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i drafod ar ddechrau a diwedd pob sesiwn. Darperir gwybodaeth berthnasol i rieni drwy'r pecyn gwybodaeth a chylchlythyron.

Mae'r bartneriaeth agos gyda'r person cofrestredig, y pwyllgor rheoli, yr athrawes gyswllt a swyddog Mudiad Ysgolion Meithrin yn arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad.

Gwneir defnydd addas o gysylltiadau cymunedol ac o ardaloedd o ddiddordeb yn lleol i gefnogi dysgu'r plant. Mae'r cysylltiadau gyda'r ysgol yn hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i'r plant i gam nesaf eu haddysg.

### Rheoli adnoddau: Da

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd da o'u hamser a'u profiad wrth weithio'n effeithiol gyda'r plant mewn ystod o weithgareddau. Mae cyflenwad digonol o adnoddau ac mae eu hargaeledd yn hybu annibyniaeth y plant fel dysgwyr. Mae'r ymarferwyr hefyd yn creu adnoddau a deunyddiau effeithiol i gyd-fynd â'r thema dan sylw.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a chaiff penderfyniadau gwariant eu blaenoriaethu yn ôl anghenion y lleoliad. Gwneir defnydd rheolaidd o fentrau codi arian er mwyn ychwanegu at yr adnoddau. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol –**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |